Cwrs Hyfforddiant Sgiliau Ymchwil

Canolfan Bedwyr, Y Ganolfan Reolaeth, Prifysgol Bangor, LL57 2DG

Dydd Mercher a Dydd Iau, 28 a 29 Ionawr 2026

Mae rhagor o wybodaeth am Raglen Hyfforddiant Sgiliau Ymchwil y Coleg Cymraeg ar y dudalen hon, neu cysylltwch â Dr Manon Elin James: m.james@colegcymraeg.ac.uk.

Amserlen

Cynhelir pob sesiwn yn ystafell **D2.07**.

Diwrnod 1 – Dydd Mercher, 28 Ionawr

10:30 – 11:00	Cyrraedd, croeso a phaned
11:00 – 13:15 *(gydag egwyl)*	**Sesiwn 1:** 'Paratoi at y Viva' – Dr Hefin Jones
13:15 – 14:00	Cinio *(darperir cinio am ddim)*
14:00 – 15:30	**Sesiwn 2:** 'Grantiau ac effaith' – Dr Rhian Hodges a Dr Cynog Prys
15:30 – 15:45	Egwyl a phaned
15:45 – 17:15	**Sesiwn 3:** 'Cynllunio gyrfa a chwilio am swyddi' – Mari Gwenllian Roberts
18:00	Swper *(darperir swper am ddim)*

Diwrnod 2 – Dydd Iau, 29 Ionawr

09:00 – 09:15	Cyrraedd a phaned
09:15 – 10:45	**Sesiwn 4:** 'Paratoi CV a chais effeithiol am swydd' – Elinor Churchill
10:45 – 11:00	Egwyl a phaned
11:00 – 12:30	**Sesiwn 5:** 'Cyfathrebu a rhwydweithio digidol effeithiol' – Elinor Churchill
12:30 – 13:15	Cinio *(darperir cinio am ddim)*
13:15 – 14:45	**Sesiwn 6:** 'Cyflwyno'ch hun yn broffesiynol mewn cyfweliad' – Mari Gwenllian Roberts
14:45 – 15:00	Egwyl a phaned
15:00 – 16:00	**Sesiwn 7:** Sgwrs gyda chyn-fyfyrwyr PhD

Bywgraffiadau a Disgrifiadau

1. Paratoi at y Viva

Cyflwynydd: Dr Hefin Jones (JonesTH@caerdydd.ac.uk)

Bywgraffiad

Mae Dr Hefin Jones yn uwch-ddarlithydd yn Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd, er 2000, ac yn Gyfarwyddwr Addysg Is-raddedig yr Ysgol gyda chyfrifoldeb trosolwg am gynlluniau gradd (BSc a MBiol) er 2019. Ei brif ddiddordebau ymchwil yw newid hinsawdd ac ecoleg cymunedau. Dros y blynyddoedd mae wedi goruchwylio 39 o fyfyrwyr PhD, ac wedi bod yn Arholwr ar 57 o ddarpar ddoethurion (y mwyafrif yng ngwledydd Prydain ond hefyd ar draws Ewrop, ac yn India, Siapan, UDA ac Awstralia). Bu hefyd yn Ddeon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol rhwng 2011 a 2021.

Cynnwys

Amcanion y gweithdy hwn yw hyfforddi sut i baratoi at, a goroesi, arholiad y Viva yn llwyddiannus.

Cynnwys y gweithdy:

1. Beth yw diben Viva?
2. Sut i dawelu'r nerfau
3. Sut i baratoi
4. Cwestiynau amlwg
5. Sut i gynyddu'ch sgôr
6. Cywiriadau a newidiadau
7. Ymarfer ateb cwestiynau

Ar ddiwedd y gweithdy hwn dylai hyfforddeion:

- Fod ym fwy hyderus wrth fynd i'w arholiadau llafar.
- Gwybod beth i wneud o flaen llaw
- Gwybod sut i ymateb i'r arholwyr

2. Grantiau ac effaith

Cyflwynwyr: Dr Rhian Hodges (r.s.hodges@bangor.ac.uk) a Dr Cynog Prys (c.prys@bangor.ac.uk)

Bywgraffiadau

Mae Dr Rhian Hodges yn Uwch Ddarlithydd Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol yn Ysgol Hanes, Y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas ym Mhrifysgol Bangor ers dros ddegawd bellach. Mae'n addysgu modiwlau cyfrwng Cymraeg ym maes addysg, cymdeithaseg, cynllunio ieithyddol, cymdeithaseg cerddoriaeth a dulliau ymchwil ac wrth ei bodd yn dysgu ystod eang o bynciau gwahanol drwy'r Gymraeg.

Ei maes ymchwil arbenigol yw cynllunio ieithyddol, ac yn arbennig siaradwyr newydd y Gymraeg, defnydd cymunedol o'r Gymraeg, ac addysg cyfrwng Cymraeg fel dull adfywio'r Gymraeg yng Nghymru.

Mae'n dod yn wreiddiol o Fargoed, Cwm Rhymni ond mae hi wedi ymgartrefu ym Mangor ers cyfnod sylweddol bellach. Mae hi wedi hen arfer teithio lan a lawr yr A470 i weld teulu a ffrindiau'r cymoedd.

Mae Dr Cynog Prys yn Uwch-ddarlithydd mewn Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor. Mae ei arbenigedd ymchwil yn ffocysu ar ddefnydd iaith o fewn nifer o gyd-destunau gwahanol, gan gynnwys y defnydd o Gymraeg ar blatfformau digidol. Dros y blynyddoedd mae wedi cyhoeddi nifer o erthyglau academaidd, adroddiadau, a goruchwylio doethuriaethau, sydd yn edrych ar sut y mae'r Gymraeg yn ymdopi ym maes technolegau iaith. Fel cymdeithasegydd, ei brif ddiddordeb yn deall sut mae unigolion, a

grwpiau o bobl, yn defnyddio'r Gymraeg ar y platfformau hyn, a'r modd y gall hyn fwydo fewn i faes cynllunio ieithyddol a pholisi iaith. Mae Dr Prys yn aelod o rwydwaith ymchwil Ewropeaidd, Language in the Human-Machine Era, ble roedd yn gyd-gadeirydd yr is-grŵp Hawliau ieithyddol rhwng 2020 a 2023. Mae bellach yn rhan o rwydwaith ymchwil Ewropeaidd UniNet sydd yn edrych ar oblygiadau a dylanwad deallusrwydd artiffisial ar ieithoedd llai ei defnydd.

Cynnwys

Mae'r gweithdy hwn yn trafod camau allweddol y broses o baratoi ceisiadau grant, e.e. sut i adnabod ffynonellau grantiau yn eich maes a phwysigrwydd creu strategaeth ceisio am grantiau. Ynghyd a thrafod grantiau, mae'r gweithdy hefyd yn ymdrin a maes effaith ymchwil (research impact) gan gynnwys cynnig enghraifft o astudiaeth achos effaith (impact case study) a thrafod pwysigrwydd paratoi'n drylwyr at y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF). Bydd yna weithgareddau rhyngweithiol hefyd yn rhan o'r hyfforddiant hwn.

3. Cynllunio gyrfa a chwilio am swyddi

Cyflwynydd: Mari Gwenllian Roberts (mari.roberts@bangor.ac.uk)

Bywgraffiad

Mae Mari Roberts yn gweithio i'r Gwasanaeth Cyflogadwyedd ym Mhrifysgol Bangor. Mae Mari yn gyfrifol am y ddarpariaeth gyrfaoedd a chyflogadwyedd o fewn y Coleg Gwyddorau Dynol, yn cynnig cyngor ac arweiniad gyrfaol unigol ac yn cefnogi datblygiad gweithgareddau amrywiol ar draws y Brifysgol sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd.

Mae Mari wedi gweithio i'r Brifysgol ers 13 mlynedd, ac wedi cwblhau MA mewn Cyngor ac Addysg Gyrfaol gyda Phrifysgol Warwick. Mae gan Mari ddiddordeb mewn defnyddio dulliau cymhelliant wrth gefnogi myfyrwyr gyda'u datblygiad gyrfaol.

Cynnwys

Amcanion y gweithdy

- Dysgu am y broses cynllunio gyrfa a sut i ddefnyddio dulliau hunan-asesu i wella eich dealltwriaeth o'ch datblygiad gyrfaol
- Gwybod sut i fynd ati i ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau a thechnegau i chwilio am swyddi

Cynnwys y gweithdy

Yn y gweithdy yma, bydd cyfle i ystyried y broses o gynllunio eich gyrfa, p'un a ydych chi'n gwybod beth hoffech chi ei wneud yn y dyfodol neu heb wneud penderfyniad eto. Gan gwblhau ymarferion hunan-asesu, bydd cyfle i chi gynyddu eich hunan-ymwybyddiaeth o'ch sgiliau cyflogadwyedd. Byddwn hefyd yn edrych ar strategaethau defnyddiol i chwilio am swyddi.

4. Paratoi CV a chais effeithiol am swydd

Cyflwynydd: Elinor Churchill (e.h.churchill@bangor.ac.uk)

Bywgraffiad

Ymgynghorydd Cyflogadwyedd ym Mhrifysgol Bangor yw Elinor. Yn ei rôl mae hi'n defnyddio dulliau hyfforddi i gefnogi myfyrwyr a graddedigion i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd, yn arwain gweithdai a gweminarau ac yn trefnu digwyddiadau gyda chyflogwyr.

Cynnwys

Amcanion y gweithdy

- Adnabod arferion da o fewn dulliau ymgeisio am swydd
- Datblygu eich dealltwriaeth am sut i addasu eich ceisiadau i anghenion penodol swyddi

Cynnwys y gweithdy

Yn y gweithdy yma, byddwn yn edrych ar sut i baratoi CV a chais effeithiol, a chael cyfle i ddadansoddi yr hyn mae cyflogwr yn ei chwilio am wrth hysbysebu swyddi. Bydd y gweithdy ymarferol yma yn cael ei chynnal mewn ystafell gyfrifiaduron er mwyn rhoi cyfle i chi ddatblygu eich CV a dogfennau cais yn ystod y gweithdy a derbyn adborth gan Ymgynghorwyr Cyflogadwyedd.

5. Cyfathrebu a rhwydweithio digidol effeithiol

Cyflwynydd: Elinor Churchill

Cynnwys

Amcanion y gweithdy

- Deall pwysigrwydd ac effaith rhwydweithio llwyddiannus ar eich datblygiad gyrfa
- Adnabod strategaethau defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn cyd-destun proffesiynol

Cynnwys y gweithdy

Yn y gweithdy yma byddwn yn edrych ar sut i rwydweithio'n effeithiol, gan gynnwys defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol wrth chwilio am swyddi, wrth hyrwyddo'ch gwaith ymchwil, ac fel rhan o'ch datblygiad proffesiynol. Byddwn yn edrych ar wahanol blatfformau digidol i hwyluso y broses o rwydweithio a codi eich proffil ar-lein.

6. Cyflwyno'ch hun yn broffesiynol mewn cyfweliad

Cyflwynydd: Mari Gwenllian Roberts

Cynnwys

Amcanion y gweithdy

- Ymarfer sgiliau cyfathrebu mewn cyd-destun cyfweliad
- Datblygu hyder wrth ddarparu ac adrodd esiamplau o'ch profiadau

Cynnwys y gweithdy

Yn y gweithdy yma byddwn yn edrych ar wahanol fathau o gyfweliadau, dysgu mwy am sut i ddarparu'n effeithiol, a dulliau i ymateb i wahanol steiliau o gwestiynau cyfweliad. Bydd cyfle i ymarfer defnyddio sgiliau cyfathrebu effeithiol i ateb cwestiynau cyffredin i sector perthnasol i'ch pwnc a chael cyfle i gael adborth gan eich cyd-ymchwilwyr.

7. Sgwrs gyda chyn-fyfyrwyr

Bydd y drafodaeth hon yn gyfle i glywed gan gyn-fyfyrwyr PhD am eu profiadau a'u cyngor – o'r ymchwilio ac ysgrifennu, i'r Viva a'r byd gwaith.